
Gwella mynediad defnyddwyr at wasanaethau symudol o 3.6GHz i 3.8GHz

Datganiad

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Hydref 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn datgan sut mae Ofcom yn bwriadu ymestyn mynediad sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol yn y dyfodol yn y band 3.6GHz i 3.8GHz. Mae'r DU a'r Undeb Ewropeaidd wedi nodi'r band hwn fel rhan o'r prif fand ar gyfer 5G.

Byddwn nawr yn dechrau'r broses ffurfiol i gynnig (i) diddymu trwyddedau cysylltiadau sefydlog yn y band 3.6 i 3.8 GHz a (ii) amrywio trwyddedau a dyfarniadau Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ar gyfer gorsafoedd daear lloeren fel na fyddai Ofcom mwyach yn ystyried gorsafoedd daear lloeren cofrestredig gyda chydran derbyn yn y band at ddibenion rheoli amledd.

Byddwn nawr yn ysgrifennu at y rheini sy'n dal trwyddedau a dyfarniadau gan nodi ein cynigion; byddan nhw'n cael cyfle pellach i gyflwyno sylwadau cyn i ni wneud y penderfyniadau terfynol ynghylch trwyddedau unigol a grantiau RSA.

Cynnwys

Adran

Crynodeb gweithredol

4

Crynodeb gweithredol

- 2.1 Ym mis Gorffennaf 2017 roedden ni wedi cyhoeddi Datganiad ac Ymgynghoriad ar wella mynediad defnyddwyr i wasanaethau symudol ar 3.6GHz i 3.8GHz (“dogfen Gorffennaf 2017”)¹. Yn y ddogfen hon rydyn ni’n nodi ein penderfyniad i ddarparu’r band 3.6GHz i 3.8GHz ar gyfer defnydd symudol cyn gynted ag sy’n ymarferol, a dyfarnu’r 116 MHz sy’n weddill yn y band ar gyfer gwasanaethau symudol yn y dyfodol.
- 2.2 Roedden ni hefyd wedi ymgynghori ynghylch ein dull gweithredu arfaethedig o ran gorsafoedd daear lloeren presennol a defnyddwyr cysylltiadau sefydlog y band 3.6GHz i 3.8GHz. Fe wnaethon ni ystyried dau prif opsiwn yn ogystal â dulliau amgen ag awgrymwyd gan randdeiliaid:
- a) **Opsiwn A**) i gadw’r awdurdodiadau presennol ar gyfer cysylltiadau sefydlog a’r gorsafoedd daear lloeren; neu
 - b) **Opsiwn B**) i gael gwared o’r awdurdodau presennol ar gyfer cysylltiadau sefydlog a pheidio derbyn mwy o orsafoedd daear lloeren sydd â chyfadran derbyn yn y band 3.6GHz i 3.8GHz at ddibenion rheoli amledd.
- 2.3 I hwyluso'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau symudol yn y band ledled y DU yn y dyfodol, fe wnaethon ni esbonio byddai’n well gennym ddewis opsiwn B. Fe wnaethon ni ymgynghori ar y dull hwn gan ysgrifennu at drwyddedwyr a deiliaid grantiau i dynnu eu sylw at yr ymgynghoriad ac i esbonio, os fyddai’n cael ei fabwysiadu, yna byddai hyn yn effeithio ar eu trwydded/au grant/iau yn y band.
- 2.4 Mae’r datganiad yn nodi ein penderfyniad, ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid i fabwysiadu’r dull gweithredu arfaethedig.
- 2.5 Yn unol â darpariaethau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, byddwn yn ysgrifennu at y rheini sydd â dyfarniadau a thrwyddedau i gynnig tynnu yn ôl neu amrywio eu trwydded/au /grant/iau fel a ganlyn:
- a) Byddwn yn cynnig diddymu’r awdurdodiadau presennol ar gyfer cysylltiadau sefydlog yn y band 3.6GHz i 3.8GHz gyda chyfnod rhybudd o 5 mlynedd; a
 - b) Byddwn yn cynnig amrywiadau i awdurdodiadau cyfredol ar gyfer gorsafoedd daear lloeren sy’n derbyn sy’n gweithredu o dan drwyddedau Gorsafoedd Daear Parhaol (PES) a dyfarniadau Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ar gyfer Gorsafoedd Daear Derbyn yn unig. Felly wrth wneud ein penderfyniadau terfynol byddwn yn ystyried unrhyw wybodaeth bellach a dderbyniwyd am amgylchiadau penodol pob un sy’n dal trwydded/grant.
- 2.6 Bydd y rheini sy’n dal trwyddedau a dyfarniadau y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw yn cael cyfle pellach i gyflwyno sylwadau ar ein cynigion cyn i ni wneud penderfyniadau terfynol ynghylch

¹ Mae 84 MHz o’r band 3.6GHz i 3.8GHz wedi cael caniatâd yn barod ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu electronig.

diddymu/amrywio trwyddedau unigol a dyfarniadau Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig yn y band.

- 2.7 Rydyn ni'n disgwyl cyhoeddi diweddariad byr i ddarparu manylion ein penderfyniadau terfynol yn gynnar yn ystod 2018.
- 2.8 Rydyn ni'n dal yn bwriadu dyfarnu'r 116 MHz sydd ar gael yn y band 3.6GHz i 3.8GHz yn 2019. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o ymgynghoriadau yn 2018 i baratoi ar gyfer y dyfarniad hwn.